

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau
Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Tracey

Sesiwn dystiolaeth ar 1 Rhagfyr

Diolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr. Rwyf wedi rhestru isod y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod:

Cyllid llywodraeth leol

O ran cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, cododd Mike Hedges AS nifer o bwyntiau y gwnaethoch gytuno i ymgynghori arnynt â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysorau Cymru wrth gasglu'r data. Yn benodol, mae gennym ddi-ddordeb mewn:

- Faint o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol sy'n arian COVID-19 heb ei dalu ond sydd wedi'i ymrwymo?
- Faint o awdurdodau lleol sy'n talu am eu hyswariant eu hunain. A allech chi gynnwys manylion nifer yr ysgolion sy'n defnyddio eu cronfeydd ariannol wrth gefn i dalu am eu hyswariant eu hunain?
- Faint o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sy'n cael eu dyrannu i adeiladu ysgolion newydd?
- Faint o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i dalu am unrhyw orwariant ar wasanaethau cymdeithasol?
- A yw cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu oherwydd bod preswylwyr newydd yn symud i ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn talu treth gyngor na chyfrifwyd amdani ar ddechrau'r flwyddyn ariannol?

Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn cyfeirio at y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd gan awdurdodau lleol, mewn perthynas â chost net eu cyllidebau gwasanaeth. O edrych ar y data, mae'n ymddangos nad yw'r cydberthynas yn

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



absoliwt, ond bod yna gydberthynas gyffredinol rhwng cyllid Grant Cynnal Reveniwr y pen. A allwch chi roi esboniad pam y mae gan awdurdodau lleol lefelau mor amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn enwedig o ystyried bod yr amrywiaeth yn eang?

Gan gyfeirio at y cyllid a gafodd awdurdodau lleol i gefnogi busnes a lletygarwch yn ystod pandemig COVID-19, a allwch gadarnhau a oedd unrhyw awdurdod lleol wedi tanwario'r cyllid hwn, ac os felly a gafodd unrhyw gyllid na chafodd ei wario ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru, neu a gadwodd awdurdodau lleol y cyllid hwn yn eu cronfeydd wrth gefn?

Cynghorau Cymuned a Thref


Gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch ynghylch rhai materion pellach ar reolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned. Fe ysgrifennoch chi gyda diweddariad manwl ynghylch y mater hwn at fy rhagflaenydd ym mis Ionawr 2020 a byddwn yn croesawu diweddariad pellach ar y materion y cyfeirir atynt yn y llythyr hwnnw.

Yn olaf, gwnaethoch gytuno i ofyn y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, pa ddata sydd ganddynt am nifer y clercod sydd eisoes yn meddu ar un neu fwy o'r pedwar cymhwyster a gynigir fel meini prawf cymhwysedd ar gyfer y pŵer cyffredinol, a sut groeso gafodd y cynigion hynny? Pa ddata neu ystyriaeth a roddir i'r graddau y bydd Aelodau, yn enwedig Aelodau newydd a allai gael eu hethol y flwyddyn nesaf, yn cael cymorth i ddeall eu dyletswyddau fel cyflogwyr corfforaethol y clercod, o ran eu hawliau cyflogaeth?

Byddwn yn croesawu cael eich ymateb erbyn 31 Ionawr 2022.

Diolch.

Cofion.

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Mark Isherwood', written over a horizontal line.

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor